*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 333(3E) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2020 Rhif (Cy. )

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015").

Mae rheoliad 2 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynyddu'r ffioedd sy'n daladwy oddeutu 20% mewn perthynas â'r canlynol:

(a) ceisiadau a wneir o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu neu am gymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl gan ganiatâd cynllunio amlinellol;

(b) ceisiadau tybiedig am ganiatâd cynllunio o dan adran 177(5) o Ddeddf 1990;

(c) ceisiadau am dystysgrifau defnydd neu ddatblygiad cyfreithlon;

(d) ceisiadau penodol o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995;

(e) monitro safleoedd mwyngloddio a thirlenwi;

(f) ceisiadau a wneir o dan amod cynllunio;

(g) ceisiadau am newidiadau ansylweddol i ganiatâd cynllunio;

(h) diwygiadau ar ôl cyflwyno, i geisiadau am ddatblygiad mawr;

(i) ceisiadau am ganiatâd i arddangos hysbysebion.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â:

(a) rhagnodi ffi o £230 ar gyfer ceisiadau a wneir am dystysgrif datblygiad arall priodol o dan adran 17 o Ddeddf Digolllediad Tir 1961;

(b) y ffioedd sydd i'w talu gan gyngor cymuned neu ar ei ran;

(c) pryd y mae'r ffi sy'n daladwy i'w dalu a sut i'w dalu;

(d) talu ad-daliad os gwrthodir y cais fel un annilys.

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â cheisiadau tybiedig am ganiatâd cynllunio o dan Ddeddf 1990.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi gan Lywodraeth Cymru yn: Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 333(3E) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2020 Rhif (Cy. )

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *24 Awst 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 303(1), (2), (5) a (6) a 333(2A) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 333(3E) o'r Ddeddf honno(**2**), gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru(**3**) ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

(**1**) 1990 (p. 8). Amnewidiwyd adran 303 gan adran 199 o Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29). Ceir diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn. Mewnosodwyd adran 333(2A) gan baragraff 14 o Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, (p. 5). Ystyr "rhagnodedig" ("*prescribed*") yw rhagnodedig mewn rheoliadau; gweler adran 336 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Gweinidogion Cymru yw'r "awdurdod priodol" ("*appropriate authority*") o ran Cymru; gweler adran 303(7)(b) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

(**2**) Mewnosodwyd adran 333(3E) gan baragraff 3 o Atodlen 7 i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc. 4).

(**3**) Mae'r cyfeiriadau yn adran 333(3E) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 24 Awst 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2015" ("*the 2015 Regulations*") yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015(**1**).

**Cynnydd mewn ffioedd**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau 2015 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 11 (ffioedd am geisiadau am dystysgrifau defnydd neu ddatblygiad cyfreithlon)—

(a) ym mharagraff 3(b), yn lle "£190", rhodder "£230";

(b) ym mharagraff 6(a), yn lle "£380", rhodder "£460"; ac

(c) ym mharagraff 6(b), yn lle "£19,000", rhodder "£23,000", yn lle "£100", rhodder "£120" ac yn lle "£287,500", rhodder "£300,000".

(3) Ym mharagraff 1 o reoliad 13 (ffioedd am geisiadau penodol o dan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "£80", rhodder "£100"; a

(b) yn is-baragraff (b), yn lle "£380", rhodder "£460".

(4) Yn rheoliad 14 (ffioedd mewn cysylltiad â monitro safleoedd mwyngloddio a thirlenwi)—

(a) ym mharagraff 4, yn lle "£330", rhodder "£400"; a

(b) ym mharagraff 5, yn lle "£110", rhodder "£135".

(5) Ym mharagraff 1 o reoliad 15 (ffioedd am geisiadau a wneir o dan amod cynllunio)—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "£30", rhodder "£35"; a

(b) ym mharagraff (b), yn lle "£95", rhodder "£115".

(6) Ym mharagraff 1 o reoliad 16 (ffioedd am geisiadau am newidiadau ansylweddol i ganiatâd cynllunio—

---

(**1**) O.S. 2015/1522 (Cy. 179) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2016/62 (Cy. 32), O.S 2017/528 (Cy. 111) ac O.S. 2019/283 (Cy. 65).

(a) yn is-baragraff (a), yn lle “£30”, rhodder “£35”; a

(b) yn is-baragraff (b), yn lle “£95”, rhodder “£115”.

(7) Ym mharagraff 3 o reoliad 16A (ffioedd am ddiwygiadau ar ôl cyflwyno, i geisiadau am ddatblygiad mawr), yn lle “£190”, rhodder “£230”.

(8) Yn Rhan 1 o Atodlen 1 (ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau a cheisiadau tybiedig am ganiatâd cynllunio neu am gymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl)—

(a) ym mharagraffau 3(1), 4(2) a 4(3), yn lle “£385”, rhodder “£460”;

(b) ym mharagraff 5, yn lle “£190”, rhodder “£230”;

(c) ym mharagraff 5A(3) —

(i) ym mharagraff (a), yn lle “£160”, rhodder “£190”; a

(ii) ym mharagraff (b), yn lle “£95”, rhodder “£115”;

(d) ym mharagraffau 6(b) a 7, yn lle “£190”, rhodder “£230”; ac

(e) ym mharagraff 13(2)—

(i) ym mharagraff (a), yn lle “£380”, rhodder “£460”; a

(ii) ym mharagraff (b), yn lle “£9,500”, rhodder “£11,500”, yn lle “£100”, rhodder “£120”, ac yn lle “£143,750”, rhodder “£150,000”.

(9) Yn Rhan 2 o Atodlen 1 (graddfa ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau a wnaed neu y tybir iddynt gael eu gwneud), yn y golofn “Ffi daladwy” yn y tabl, yn lle unrhyw ffi o swm a bennir yng Ngholofn 1 o’r tabl isod, rhodder y swm uwch a bennir yng Ngholofn 2.

| *Colofn 1 - swm mewn £ a bennir yn y tabl graddfa ffioedd yn Rhan 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2015* | *Colofn 2 - swm uwch* |
|---|---|
| £70 | £85 |
| £100 | £120 |
| £190 | £230 |
| £380 | £460 |
| £385 | £460 |
| £2,150 | £2,600 |
| £9,500 | £11,500 |
| £19,000 | £23,000 |
| £28,500 | £34,500 |
| £74,800 | £80,000 |
| £143,750 | £150,000 |
| £287,500 | £300,000 |

(10) Yn Atodlen 2 (ffioedd am hysbysebion graddfa ffioedd mewn cysylltiad â cheisiadau am ganiatâd i arddangos hysbysebion) yn y Tabl—

(a) ym mharagraffau 1 a 2, yn yr ail golofn, yn lle "£100", rhodder "£120"; a

(b) ym mharagraff 3, yn yr ail golofn, yn lle "£380", rhodder "£460".

**Ffioedd am geisiadau am dystysgrifau datblygiad arall priodol**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau 2015 wedi eu diwygio ymhellach fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 16A, mewnosoder—

**"16B Ffioedd am geisiadau am dystysgrifau datblygiad arall priodol**

(1) Pan wneir cais i awdurdod cynllunio lleol o dan adran 17 o Ddeddf Digolllediad Tir 1961 (tystysgrifau datblygiad arall priodol), rhaid talu ffi i'r awdurdod hwnnw.

(2) Y ffi sy'n daladwy mewn cysylltiad â chais y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo yw £230.

(3) Pan wneir cais gan neu ar ran cyngor cymuned, y ffi sy'n daladwy yw hanner y swm a fyddai'n daladwy fel arall.

(4) Rhaid i'r ffi mewn cysylltiad â chais y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo fynd gyda'r cais pan gyflwynir ef i'r awdurdod cynllunio lleol.

(5) Os nad yr awdurdod cynllunio lleol sy'n cael y ffi yn unol â pharagraffau (1) i (4) yw'r awdurdod cynllunio lleol sy'n gorfod penderfynu'r cais, rhaid iddo anfon y ffi at yr awdurdod hwnnw yr un pryd ag y bydd yn anfon y cais ymlaen ato.

(6) Rhaid ad-dalu unrhyw ffi a delir yn unol â'r rheoliad hwn os gwrthodir y cais ar y sail ei fod yn annilys."

**Darpariaeth Drosiannol**

**4.**—(1) Yn y rheoliad hwn mae i "ymweliad safle" yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2015.

(2) Nid yw rheoliad 2 yn gymwys i—

(a) ceisiadau a wnaed cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym;

(b) ceisiadau a tybir eu bod wedi eu gwneud yn rhinwedd adran 177(5) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (rhoi neu addasu caniatâd cynllunio ar apelau yn erbyn hysbysiadau gorfodi) mewn cysylltiad â hysbysiad gorfodi

a ddyroddir o dan adran 172 o’r Ddeddf honno cyn y dyddiad y daw’r Rheoliadau hyn i rym;

(c) ymweliadau safle a gynhelir cyn y dyddiad y daw’r Rheoliadau hyn i rym;

(d) diwygiadau a gyflwynir cyn y dyddiad y daw’r Rheoliadau hyn i rym.

*Enw*
Teitl y Gweinidog, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad